



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:

65/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

06/10/2021

Monitro ac Adrodd am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Arolwg Defnyddwyr 2021

Monitro ac Adrodd am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Arolwg Defnyddwyr 2021:

Isabella Malet-Lambert

Adroddiad Ymchwil Llawn: Malet-Lambert, I (2021). *Monitro ac Adrodd am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Arolwg Defnyddwyr 2021*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 65/2021.>

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-o-ddefnyddwyr-y-cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-2021>

Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr adroddiad hwn yn perthyn i'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru .

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Isabella Malet-Lambert

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwildyfodolcynaliadwy@llyw.cymru

Tabl Cynnwys

Rhestr o ffigurau	Error! Bookmark not defined.
Geirfa	Error! Bookmark not defined.
1. Cyflwyniad/Cefndir	4
2. Methodoleg	5
3. Canfyddiadau	6
4. Casgliadau a Chamau Nesaf	11
Atodiad A	12

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Beth yw lefel eich ymwybyddiaeth o Gynllun Cenedlaethol Morol Cymru?	6
Ffigur 2: Sut y daethoch i wybod am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)	7
Ffigur 3: Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, pa mor aml mae eich sefydliad wedi cyfeirio at bolisiâu yn y Cynllun wrth wneud y mathau o benderfyniadau canlynol?	8
Ffigur 4: Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Cynllun wedi bod yn ffactor wrth ystyried yr amcanion canlynol:	9
Ffigur 5: Pa un o'r adnoddau canlynol rydych chi wedi'u defnyddio ochr yn ochr â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru?	10

Geirfa

Acronym	Diffiniad
CMCC	Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru
MCAA	Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
AMU	Amcanion Morol Uwch
MPS	Datganiad Polisi Morol y DU

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mae [Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru \(CMCC\)](#) yn amlinellu polisiau cynllunio morol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu ardal cynllun morol Cymru yn gynaliadwy. Cafodd CMCC ei fabwysiadu a'i gyhoeddi ar 12 Tachwedd 2019. Daeth i rym ar unwaith, gyda gofyniad i awdurdodau cyhoeddus wneud unrhyw benderfyniadau mewn perthynas ag awdurdodi neu orfodi yn unol â'r CMCC, oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn dangos y dylid gwneud fel arall.
- 1.2 Mae adran 61 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA) yn gosod gofyniad cyfreithiol i fonitro ac adrodd (o leiaf unwaith bob tair blynedd) am y gwaith o weithredu cynlluniau morol, gan gynnwys y CMCC. Y diben yw deall y canlynol:
- cyfraniad y cynllun morol at yr Amcanion Morol Uwch yn Natganiad Polisi Morol (MPS) y DU
 - y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni amcanion y cynllun morol;
 - effeithiau'r polisiau yn y cynllun morol; ac
 - effeithiolrwydd polisiau'r cynllun wrth gyflawni amcanion y cynllun morol.
- 1.3 Cafodd [Fframwaith Monitro ac Adrodd](#) ar gyfer CMCC ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Mae'r Fframwaith yn amlinellu'r dull strategol y bydd Llywodraeth Cymru, fel awdurdod cynllunio morol Cymru, yn ei ddilyn i ddatblygu dangosyddion ar gyfer monitro'r broses o weithredu system a arweinir gan gynllun ar gyfer dyfroedd Cymru.
- 1.4 Nod yr arolwg hwn oedd casglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth o'r CMCC. Roedd hefyd yn ceisio casglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth a defnydd o ganllawiau ac adnoddau i gefnogi cynllunio morol.
- 1.5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal Arolwg Defnyddwyr ychwanegol o fewn y cyfnod adrodd tair blynedd. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu tueddiadau o ran ymwybyddiaeth a defnydd o'r CMCC a'i ganllawiau ac adnoddau cynllunio morol ategol, yn ogystal â barn defnyddwyr ar sut mae'r CMCC yn perfformio o ran cyflawni ei amcanion.

2. Methodoleg

- 2.1 Mae'r Tîm Cynllunio Morol yn Llywodraeth Cymru wedi comisiynu tîm ymchwil Dyfodol Cynaliadwy Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i gynnal Arolwg Defnyddwyr. Bwriad yr Arolwg Defnyddwyr cychwynnol hwn, sydd wedi ei gynnal flwyddyn yn unig ers cyhoeddi'r CMCC, yw sefydlu rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol gychwynnol i lywio monitro yn y dyfodol. Targedwyd yr Arolwg Defnyddwyr ar randdeiliaid ledled y sector morol.
- 2.2 Cynlluniwyd y cwestiynau yn yr Arolwg Defnyddwyr gan dîm Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru a'r tîm polisi Cynllunio Morol. Roedd yr holl gwestiynau'n ddewisol i ymatebwyr.
- 2.3 Casglwyd y data ar gyfer yr Arolwg Defnyddwyr hwn gan Smart Survey rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021. Cyhoeddwyd dolen i'r Arolwg ar wefan Busnes Cymru. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo drwy [gylchlythyr Cynllunio Morol](#) Llywodraeth Cymru, tudalen newyddion y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru a phostio negeseuon uniongyrchol i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol.
- 2.4 Anfonwyd nodiadau atgoffa i gwblhau'r Arolwg Defnyddwyr ar e-bost ym mis Ionawr a mis Chwefror 2021. Anfonwyd yr Arolwg Defnyddwyr a holl nodiadau atgoffa'r Arolwg Defnyddwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 2.5 Roedd cyfanswm o 28 o ymatebwyr i'r Arolwg Defnyddwyr.

Cyfyngiadau


- 2.6 Oherwydd y cyfraddau ymateb isel i'r Arolwg Defnyddwyr (25 ymatebwyr) hwn, dylai'r canfyddiadau gael eu hystyried yn arwydd o gyhoeddiad diweddar y CMCC yn unig. Dylid nodi hefyd bod yr holl gwestiynau'n ddewisol, ac o ganlyniad mae nifer isel iawn o ymatebion i rai cwestiynau. Mae'r ymatebion i'r Arolwg Defnyddwyr wedi ein galluogi i sefydlu llinell sylfaen o ran ymwybyddiaeth a defnydd o'r CMCC i lywio gwaith monitro ac adrodd ehangach.

3. Canfyddiadau

Ymwybyddiaeth o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru

- 3.1 O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hwn, roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhai a ddywedodd fod ganddynt lefelau 'Isel' ac 'Uchel' o ymwybyddiaeth o'r CMCC (wyth allan o 25). Nodwyd lefel 'ganolig' o ymwybyddiaeth gan bron i chwarter o ymatebwyr (chwech allan o 25), a nododd llai na phump allan o 25 'dim ymwybyddiaeth'.


Ffigur 1: Beth yw lefel eich ymwybyddiaeth o Gynllun Cenedlaethol Morol Cymru?



- 3.2 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hynny a nododd o leiaf lefel isel o ymwybyddiaeth o ble y clywsant am y CMCC. Nododd dros hanner (12 allan o 22) iddynt glywed am y cynllun drwy e-bost mewnol yn eu gweithle. Yr ail ymateb mwyaf cyffredin oedd 'Drwy grŵp Rhanddeiliaid Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru' (saith allan o 22).
- 3.3 Gofynnwyd i ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' fanylu. Roedd yr ymatebion yn cynnwys: drwy gyfarfodydd cyswllt rheolaidd y Sefydliad Rheoli Morol, drwy waith o

fewn Tîm Trwyddedu Morol Cyfoeth Naturiol Cymru, a thrwy Gymdeithas Pysgotwyr Cymru.

Ffigur 2: Sut y daethoch i wybod am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)




Defnydd o Gynllun Rheoli Morol Cenedlaethol Cymru

- 3.4 Pan ofynnwyd a oedd eu sefydliad wedi defnyddio'r CMCC, ymatebodd bron i dri o bob pump (13 allan o 22) bod eu sefydliad wedi gwneud defnydd ohono, o'i gymharu â chwech allan o 25 a ddywedodd nad oeddent wedi gwneud defnydd ohono.
- 3.5 Roedd cipio'r argraff gychwynnol ar ba mor aml y cyfeiriodd sefydliadau at bolisiau yn y CMCC wrth wneud gwahanol fathau o benderfyniadau yn un o nodau pwysig yr arolwg er mwyn sefydlu llinell sylfaen. O ran 'Penderfyniadau Awdurdodi a Gorfodi', dywedodd pump allan o 22 o'r ymatebwyr eu bod 'Bob amser' neu 'Yn aml' yn defnyddio CMCC ar gyfer y penderfyniadau hyn, a dywedodd llai na phump allan o 22 o ymatebwyr eu bod yn defnyddio'r CMCC 'Bob amser' neu 'Yn aml' ar gyfer 'Penderfyniadau Eraill'. Yr ymateb mwyaf cyffredin ar gyfer y ddau fath hyn o


benderfyniad oedd 'Nid wyf yn gwybod' (naw allan o 22 ac 11 allan o 22 ymatebwyr, yn y drefn hyn).

Ffigur 3: Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, pa mor aml mae eich sefydliad wedi cyfeirio at bolisiâu yn y Cynllun wrth wneud y mathau o benderfyniadau canlynol?



- 3.6 Pan ofynnwyd a oedd y CMCC wedi bod yn ffactor wrth ystyried nifer o amcanion mewn perthynas â rheoli morol yn effeithiol. 'Yr angen i wneud penderfyniadau cyson, cymesur sy'n integreiddio polisi morol a daearol ac ystyried materion trawsffiniol pan fo'n briodol' (naw allan o 22 ymatebwyr) a 'Rheoli defnydd lluosog o ardal forol Cymru, naill ai drwy gydfodolaeth neu ddiogelu'r sector' (naw allan o 22 ymatebwyr) oedd yr amcanion a ddenodd gytundeb neu gytundeb cryf ar ran yr ymatebwyr fwyaf aml.

Ffigur 4: Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Cynllun wedi bod yn ffactor wrth ystyried yr amcanion canlynol:




N = 22

*Dilëwyd categori anghytuno ar gyfer pob opsiwn ymateb ac eithrio 'Diogelu a hyrwyddo tirweddau a morweddau gwerthfawr' gan fod nifer yr ymatebwyr yn llai na 5.

- 3.7 Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd eu sefydliad wedi bod yn ymwneud â datblygu a/neu gyflwyno cynnig i broses ffurfiol o wneud penderfyniadau o fewn cwrpas y CMCC. Nododd traean o'r ymatebwyr (chwech allan o 19) cadarnhaol, ac ymatebodd 12 allan o 19 nad oedd eu sefydliad wedi ymwneud â hyn. Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd yn gadarnhaol ym mha gyswllt y gwnaethant hynny. Ymatebodd y mwyafrif iddo ddigwydd yn rhinwedd rôl y sefydliad fel corff cynghori, gyda nifer fach o ymatebion eraill, gan gynnwys fel rhanddeiliad ac fel ymgeisydd.
- 3.8 Wedi hynny, gofynnwyd i ymatebwyr pa adnoddau eraill a ddefnyddiwyd ganddynt ochr yn ochr â'r CMCC. Yr ymatebion mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd gwefan Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru a Chanllawiau Gweithredu'r CMCC (y ddau yn naw allan o 19 ymatebwyr).
- 3.9 Os oedd ymatebwyr yn dewis 'Canllawiau eraill' neu 'Canllawiau a ddatblygwyd gan sefydliad arall', gofynnwyd iddynt nodi beth oedd y canllawiau hynny. Cyfeiriodd rhai

ymatebwyr at ganllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â deddfwriaeth arall fel Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir.

Ffigur 5: Pa un o'r adnoddau canlynol rydych chi wedi'u defnyddio ochr yn ochr â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)



- 3.10 Wedi hynny, gofynnwyd i'r cyfranogwyr roi gwybod am y rhesymau pam eu bod wedi defnyddio Porth Cynllunio Morol Cymru. Yr ymateb mwyaf cyffredin i hyn oedd 'I ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ar ardal forol Cymru' gyda thri chwarter (naw allan o 19 ymatebwyr) yr ymatebwyr yn dewis yr ymateb hwn.

4. Casgliadau a Chamau Nesaf

- 4.1 Roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (22 allan o 25) rywfaint o ymwybyddiaeth o'r CMCC, gyda 14 allan o 25 â lefel 'ganolig' neu 'uchel' o ymwybyddiaeth. Mae hyn yn dangos bod cyfathrebu'r CMCC yn gweithio'n effeithiol.
- 4.2 Adroddodd bron i dair rhan o bump yr ymatebwyr (13 allan o 22) bod eu sefydliad wedi defnyddio'r CMCC. Mae hyn yn dangos bod lefel dda o ymgysylltu â'r CMCC, gyda sefydliadau'n gwneud defnydd ohono, er bod lle i wella hyn.
- 4.1 Bwriadwyd yr arolwg hwn fel y cyntaf o sawl arolwg i gasglu gwybodaeth am ymwybyddiaeth o'r CMCC a sut mae'n cael ei ddefnyddio. Mae'r wybodaeth hon wedi darparu llinell sylfaen. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal arolwg pellach yn ystod y cyfnod monitro tair blynedd cyntaf hwn. Bydd hyn yn caniatáu i dueddiadau yn y defnydd o'r CMCC a'i ddeunyddiau ategol gael eu cipio. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i farn defnyddwyr ar effeithiolrwydd polisïau'r CMCC lywio gwaith monitro ac adrodd ehangach.
- 4.1 Dymuna Llywodraeth Cymru fynegi ei diolch i'r holl ymatebwyr a gwblhaodd yr arolwg.

Atodiad A

Monitro ac Adrodd am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru – Arolwg Defnyddwyr

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal yr arolwg hwn i ddeall yn well ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a sut mae'r cynllun yn cael ei ddefnyddio.

Bydd cwestiynau am eich ymwybyddiaeth a'ch dealltwriaeth o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru. Nid oes angen gwybodaeth arbenigol arnoch i gwblhau'r arolwg hwn. Mae cymryd rhan yn wirfoddol ac nid oes rhaid ichi ateb pob cwestiwn os nad ydych yn dymuno gwneud hynny – a chewch dynnu'n ôl o'r arolwg ar unrhyw adeg.

Gall cwblhau'r arolwg gymryd hyd at 15 munud. Rhaid ichi fod yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn i gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch yr ymchwil hon, mae croeso ichi gysylltu ag unrhyw rai o ymchwilwyr y prosiect, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Eich data: Bydd y data a roddir gennych yn yr arolwg yn cael ei gadw'n ddienw – ni fydd yn bosibl cysylltu'r wybodaeth hon â chi fel unigolyn. Cedwir y data dienw am hyd at saith mlynedd yn unol â'r GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data), ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ddefnyddio i lunio adroddiadau ac arwain trafodaethau â Grwpiau Rhanddeiliaid Cynllunio Morol. Mae hysbysiad preifatrwydd yma.

Cyswllt Ymchwil: Malet-Lambert (Isabella.malet-lambert@llyw.cymru)
Cyswllt Polisi: Sarah Bound (Sarah.Bound@llyw.cymru)

C1 Ym mha iaith yr hoffech gwblhau'r Arolwg Defnyddwyr?

- ☐ Cymraeg
- ☐ Saesneg

C2 Rwy'n ymateb i'r arolwg hwn fel: Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- ☐ Awdurdod Penderfynu (e.e. Awdurdod Cynllunio Lleol)
 - ☐ Ymgeisydd (e.e. am Drwydded Forol)
 - ☐ Corff Cynghori (e.e. ymgynghorai statudol neu anstatudol)
 - ☐ Rhanddeiliad arall (e.e. sefydliad hamdden neu unigolyn. Rhwch fanylion)
-

C3 Fy nheiti neu enw fy swydd yw:

C4 Beth yw lefel eich ymwybyddiaeth o Gynllun Cenedlaethol Morol Cymru?

- o Uchel – wedi cymryd rhan yn y gwaith o'i ddatblygu/neu'n ei ddefnyddio'n rheolaidd
- o Canolig – wedi ei ddefnyddio
- o Isel – gwybod amdano ond ddim yn ei ddefnyddio
- o Dim ymwybyddiaeth ohono

C5 Sut y daethoch i wybod am Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ E-bost uniongyrchol
- ☐ Y cyfryngau cymdeithasol
- ☐ Cylchlythyr Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru
- ☐ Llofnod e-bost Llywodraeth Cymru
- ☐ Wedi cael gwybod gan gorff sy'n gwneud penderfyniadau (e.e. CNC, Awdurdod Lleol)
- ☐ E-bost mewnol yn fy ngweithle
- ☐ Drwy grŵp rhanddeiliaid cynllunio morol Llywodraeth Cymru e.e. Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol
- ☐ Arall (Noder os gwelwch yn dda)

C6 Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ydy eich sefydliad wedi defnyddio'r Cynllun wrth wneud unrhyw benderfyniadau?

- ☐ Ydy
- ☐ Nac ydy
- ☐ Nid wyf yn gwybod

C7 Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, pa mor aml mae eich sefydliad wedi cyfeirio at bolisiâu yn y Cynllun wrth wneud y mathau o benderfyniadau canlynol?

Bob amser	Yn aml	Weithiau	Yn anaml	Byth	Nid yw'n berthnasol – nid yw'n gwneud y penderfynia dau hynny	Nid wyf yn gwybod
Penderfyniadau awdurdod i a gorfodi	☐	☐	☐	☐	☐	☐
Penderfyniadau eraill	☐	☐	☐	☐	☐	☐

C8 Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y Cynllun wedi bod yn ffactor wrth ystyried yr amcanion canlynol:

	Cytuno'n gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Nid wyf yn gwybod
Cyfraniad y cynigion tuag at gyflogaeth ac economi Cymru					
Rheoli defnydd lluosog o ardal forol Cymru, naill ai drwy gydfodolaeth neu ddiogelu'r sector					
Cyfraniad y cynigion tuag at gadernid cymunedau arfordirol					
Cyfleoedd i wella mynediad y cyhoedd i'r ardal forol ac oddi mewn iddi					
Diogelu a hybu tirweddau a morweddau gwerthfawr					
Ystyried risgiau a ddaw yn sgil cynigion i asedau hanesyddol yn yr ardal forol					
Mesurau lliniaru ac addasu o ran newid hinsawdd (datblygiadau neu weithgareddau sy'n lleihau neu'n diogelu rhag effeithiau newid hinsawdd)					

Yr angen i gynnal a gwella cadernid ecosystemau morol a'r manteision a gynigir ganddynt					
Yr angen i wneud penderfyniadau cyson, cymesur sy'n integreiddio polisi morol a daearol ac ystyried materion trawsffiniol pan fo'n briodol					

C9 Os ydych yn gallu ymhelaethu ar eich ymatebion i'r cwestiwn uchod, rhowch enghreifftiau:

C10 Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ydy'ch sefydliad wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a/neu gyflwyno cynnig i broses ffurfiol o wneud penderfyniadau ffurfiol yn ardal y Cynllun?

- o Ydy – Nodwch ym mha rôl (e.e. ymgeisydd, ymgynghorydd, corff cyngori)

-
- o Nac ydy

C11 Wrth benderfynu cyflwyno cynnig i'r broses ffurfiol o wneud penderfyniadau ai peidio, a wnaethoch ystyried polisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Do – cyflwynwyd y cynnig
- ☐ Do – ni chyflwynwyd y cynnig
- ☐ Naddo – Nid oeddwn yn gwybod ei fod yn angenrheidiol
- ☐ Naddo – Nid oeddwn yn ystyried ei fod yn berthnasol
- ☐ Amherthnasol – nid oeddwn yn chwarae rhan yn y penderfyniad i gyflwyno cynnig

C12 Pa un o'r adnoddau canlynol rydych chi wedi'u defnyddio ochr yn ochr â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Porthol Cynllunio Morol Cymru
- ☐ Canllawiau Gweithredu
- ☐ Gwefan Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru
- ☐ Gweminarau Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru ar YouTube
- ☐ Canllawiau eraill a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru (Noder os gwelwch yn dda)
- ☐ Canllawiau a ddatblygwyd gan sefydliad arall (Noder os gwelwch yn dda)
- ☐ Dim un o'r uchod

C13 Ers mabwysiadu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, ydych chi wedi defnyddio Porthol Cynllunio Morol Cymru ar gyfer unrhyw un o'r rhesymau canlynol?

- ☐ I lywio penderfyniad o dan Ddeddf Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009
- ☐ I ddod o hyd i wybodaeth a thystiolaeth ar ardal forol Cymru
- ☐ I ddod o hyd i ddolenni i ffynonellau gwybodaeth eraill (nad ydynt yn ffynonellau Llywodraeth Cymru)
- ☐ Arall (Noder os gwelwch yn dda)

C14 Sut y daethoch i wybod am yr arolwg hwn? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ E-bost uniongyrchol
 - ☐ Y cyfryngau cymdeithasol
 - ☐ Cylchlythyr Cynllunio Morol Llywodraeth Cymru
 - ☐ E-bost mewnol yn fy ngweithle
 - ☐ Tudalen newyddion y Môr a Physgodfeydd Busnes Cymru
 - ☐ Tudalen newyddion y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru
 - ☐ Arall (Noder os gwelwch yn dda)
-